WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
PEN-Y-BONT AR OGWR
CF31 4WB

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 17 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 444A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | |
| **E-bost** | |
| **Tudalennau** | **1** o **8** |

Annwyl Brif Weithredwr

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn gan fod y Cyngor, drwy gymeradwyo ei Gynllun Corfforaethol ar 4 Ebrill 2012, wedi cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol 2009, o dan Adran 15 (7), drwy gyhoeddi ei Gynllun Gwella o fewn cyfnod rhesymol ar ôl 1 Ebrill. Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan y Cyngor erbyn 30 Ebrill 2012.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys naw amcan gwella ar gyfer 2012-13. Cynhaliwyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr amcanion hyn ac maent yn cyfeirio at agweddau ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid er mwyn cytuno ar sut y dylid dewis a blaenoriaethu ei amcanion gwella.

Addasodd y Cyngor ei Broses Adolygu Busnes Chwarterol (y cyfeirir ati erbyn hyn fel cyfarfodydd Asesu Perfformiad Corfforaethol) ym mis Gorffennaf 2012 er mwyn canolbwyntio'n bennaf ar fonitro a gwerthuso cynnydd ei amcanion gwella. Rhagwelir y bydd hyn hefyd yn gwella'r gwaith o fonitro sut y mae'r camau gweithredu sy'n ategu'r broses o roi'r amcanion gwella ar waith yn effeithio ar gyllideb y Cyngor.

## Yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol ac yn gyfyngedig iddo:

### Credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

### Mae'r Cyngor wedi cyflwyno nifer o fentrau i ymdrin â'r materion a nodwyd yn fy nghynigion blaenorol ar gyfer gwella

Nododd yr Adroddiad Gwella Blynyddol blaenorol fod y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i gyflawni gwelliant ac mae'n perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r trefniadau gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn ddigon cytbwys. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella a nododd rhai meysydd lle y byddem yn gwneud gwaith pellach. Disgrifir cynnydd ar y materion hyn yn fanylach yn Atodiad 1 a cheir crynodeb isod:

- Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl), wedi cwblhau Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion (SYD). Mae'r broses o'i rhoi ar waith wedi'i hategu gan gynllun gweithredu a Grŵp Llywio, sy'n gyfrifol am ystyried cynnydd a rhannu gwybodaeth.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cylch cynllunio busnes a chyllideb diwygiedig er mwyn sicrhau bod adnoddau wedi'u cysoni'n well â blaenoriaethau allweddol. Mae cynigion i ailstrwythuro ac uno ei swyddogaethau cyllid a pherfformiad yn mynd rhagddynt er mwyn gwella'r broses o fonitro cynlluniau arbedion y Cyngor ac asesu'r effaith ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cynllun gweithlu tair blynedd er mwyn trefnu adnoddau staff mewn ffordd sy'n helpu i gyflawni ei amcanion gwella. Mae cynlluniau ar waith i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal arfarniadau staff ar draws y sefydliad.
- Mae gwelliannau i ddull y Cyngor o reoli risg yn mynd rhagddynt, er nad ydym wedi adolygu pa un a gafodd y polisi rheoli risg newydd ei roi ar waith yn effeithiol.

**Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu dull gweithredu cadarn o ran ymdrin â'i heriau ariannol, gan weithio tuag at gysylltu data perfformiad â chyllid er mwyn dangos yn glir effaith ei gynllun arbedion ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.**

Mae cynlluniau lefel uchel ar waith gan y Cyngor i gyflawni arbedion ariannol, yn y tymor canolig a'r hirdymor, y mae'n parhau i'w hatgyfnerthu a'u mireinio. Mae'n gliriach ynghylch pa wasanaethau fydd yn parhau i gael eu hariannu a lle y bydd yn lleihau cyllidebau.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cwblhau amrywiaeth o newidiadau er mwyn cyflawni ei gynlluniau megis trefnu contractau allanol ar gyfer ei wasanaethau hamdden a, thrwy well dulliau caffael, wella ansawdd ei wasanaeth gwastraff ac ailgylchu gan leihau'r costau ar yr un pryd. Mae hefyd yn chwilio am gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ar y cyd â chynghorau cyfagos a'i sefydliadau partner yn y BGLl, fel gyda'r gwasanaeth iechyd lleol i roi trefniadau cydweithio ar waith ar lefel leol drwy 'dimau ardal a rennir'.

Gan gydnabod yr angen i wella'r broses o fonitro a gwerthuso ei waith cynllunio ariannol, mae'r Cyngor yn bwrw ati i ddatblygu mesurau canlyniadau a ddylai helpu i ddangos effaith unrhyw newidiadau ar y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r Cyngor hefyd yn gwella ei drefniadau monitro a chyflwyno adroddiadau drwy uno ei dimau perfformiad a chyllid, a thrwy sefydlu cyfarfodydd Asesu Perfformiad Corfforaethol.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid wyf wedi gwneud unrhyw gynigion pellach ar gyfer gwella fel rhan o'r adolygiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol ac yn cyflwyno adroddiadau arno.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn hysbysu'r Cyngor am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu yn ystod 2012-13.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen, a gaiff eu diweddaru a'u trafod â'r Cyngor yn rheolaidd, yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith a wneir yn ystod yr asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu, gan gynnwys adolygiad o lywodraethu, wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Steve Barry, Rheolwr (De)

Helen Keatley, Arweinydd Archwilio Perfformiad

Ian Pennington, Archwilwyr Penodedig: KPMG

## Atodiad 1 – Y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion blaenorol

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Cyflwyno adroddiadau cytbwys**<br>Er mwyn helpu dinasyddion i ddeall cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei amcanion a gwella perfformiad yn llawn, dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod ei adroddiad blynyddol yn fwy cytbwys;<br>• bod yn gliriach ynghylch perfformiad nad yw cystal â'r disgwyl, yn ogystal â meysydd lle y mae wedi rhagori ar ddisgwyliadau;<br>• nodi beth y mae'n bwriadu ei wneud o ganlyniad;<br>• gofyn am adborth a sylwadau gan ddinasyddion a chymunedau. | Byddwn yn cyflwyno ein barn derfynol yn ystod ein gwaith Asesu Perfformiad ac yn cyflwyno adroddiad ym mis Tachwedd 2012. |
| **Ymgysylltu**<br>• Datblygu ymhellach y trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid wrth bennu amcanion gwella ar gyfer y dyfodol.<br>• Adeg cwblhau'r gwaith hwn, roedd y Cyngor ar fin cwblhau'r broses o gytuno ar gynnwys y cynllun gweithredu i roi Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar waith. Os na chytunwyd ar y cynllun gweithredu eto, yna dylai'r Cyngor fwrw ati ar fyrder i sicrhau y cytunir arno. | Mae'r Cyngor wedi sicrhau ei hun bod ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn parhau'n berthnasol i bobl leol, drwy ymgynghori â sampl o ddinasyddion a gwneud newidiadau i'w amcanion gwella o ganlyniad i'w hadborth.<br>Mae'r BGLl yn rhagori ar ddisgwyliadau o ran cyflawni'r camau gweithredu o'i SYD. Lluniwyd y cynllun gweithredu drafft, cytunwyd arno ac mae agweddau ar y cynllun eisoes wedi'u rhoi ar waith. Er enghraifft, mae'r BGLl wedi lansio gwefan ymgynghori 'Ask Bridgend' i annog dinasyddion i fod yn rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer darparu gwasanaethau lleol. Cynhaliwyd arolwg chwe mis yn gynharach na'r disgwyliadau cychwynnol. Sefydlwyd Grŵp Llywio'r SYD hefyd i rannu gwybodaeth a chynnydd â holl bartneriaid y BGLl. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Cynllunio a monitro busnes**<br>• Dylai'r Cyngor gwblhau ei drefniadau cynllunio busnes yn seiliedig ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig dros y misoedd i ddod.<br><br>• Defnyddio'r broses o fonitro'r gyllideb i olrhain perfformiad yn erbyn cynigion arbedion unigol er mwyn asesu a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei gynlluniau a sicrhau bod pob cynnig yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i drethdalwyr. | Mae uwch reolwyr y Cyngor wedi cytuno ar gylch cynllunio busnes a chyllideb diwygiedig er mwyn sicrhau bod strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn gyson a'u bod yn llywio Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a phroses cyllideb flynyddol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14.<br><br>Mae'r Cyngor yn ailstrwythuro ei swyddogaethau cyllid a pherfformiad. Bydd y tîm cyllid a pherfformiad wedi'i uno yn gyfrifol am fonitro cynlluniau arbedion y Cyngor. Caiff y cynlluniau arbedion hyn hefyd eu monitro drwy broses adolygu perfformiad newydd sy'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion gwella (amcanion ansawdd ac amcanion cyllidebol). Gall y Cyngor ddangos tystiolaeth ei fod wedi cyflawni 90 y cant o'r arbedion a gynlluniwyd ganddo ar gyfer 2011-12 megis trefnu contractau allanol ar gyfer gwasanaethau hamdden a weithredwyd yn unol â'r amserlen ac a fydd yn arbed tua £500,000 y flwyddyn i'r Cyngor o 2012-13. |
| **Gweithlu**<br>• Dylai'r Cyngor sicrhau y caiff y broses o arfarnu perfformiad staff ei defnyddio'n gyson drwy'r Cyngor fel ffordd o ymgorffori prosesau rheoli perfformiad mewn prosesau rheoli bob dydd.<br><br>• Mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei ddull gweithredu o ran cynllunio'r gweithlu. | Mae'r Cyngor wei diwygio ei bolisi arfarnu a'i ganllawiau i reolwyr, a datblygwyd ffurflenni arfarnu er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn glir. Rhoddwyd trefniadau ar waith i fonitro lefelau gweithgarwch yn y maes hwn yn ofalus. Ar adeg ein hadolygiad (diwedd mis Mawrth 2012), roedd 29 y cant o arfarniadau'r Cyngor wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r arfarniadau wedi'u trefnu ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill i fis Mehefin 2012. Dylai hyn arwain at gynnydd sylweddol yng nghanran yr arfarniadau a gwblhawyd.<br>Mae'r Cyngor wedi datblygu ei ddull o gynllunio'r gweithlu drwy ddatblygu cynllun gweithlu corfforaethol tair blynedd. Mae'r cynllun yn nodi'r cyd-destun ar gyfer cynllunio'r gweithlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r materion trawsbynciol yn ymwneud â'r gweithlu a'r camau gweithredu yn ymwneud â'r gweithlu gwasanaeth y bydd angen eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'r Cyngor yn bwriadu atgyfnerthu ei ddull gweithredu ymhellach drwy ddatblygu'r cynllun hwn yn 2012-13 i lunio strategaeth gweithlu tymor canolig sy'n nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau a'i weithlu gyda chynlluniau gweithredu ategol. |

<table>
<tr><th>Cynigion ar gyfer gwella</th><th>Cynnydd</th></tr>
<tr><td>Rheoli risg<ul><li>Atgyfnerthu'r trefniadau presennol drwy nodi sut y caiff risgiau gweddilliol eu rheoli er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau allweddol eu darparu.</li><li>Atgyfnerthu cynlluniau gweithredu gweithredol i gynnwys rolau rheoli yn hytrach na thimau neu adrannau yn unig.</li><li>Llunio adroddiadau gwybodaeth effeithiol sy'n helpu aelodau i ddeall perfformiad a phrosesau lliniaru risg yn well.</li><li>Cynnwys partneriaethau yn y broses rheoli risg gorfforaethol a gweithredol.</li></ul></td><td>Mae'r Cyngor wrthi'n gwella prosesau rheoli risg yn sgîl argymhellion a wnaed yn 2011. Er enghraifft, eglurwyd atebolrwydd dros reoli risgiau yng nghynlluniau gweithredu risg y Cyngor a gwellwyd y wybodaeth a roddwyd i aelodau am risg megis asesiad risg corfforaethol a adolygwyd gan y pwyllgor archwilio, a'r ffaith bod adroddiadau risg chwarterol bellach yn ystyried risgiau net. Fodd bynnag, mae polisi rheoli risg y Cyngor ar ffurf ddrafft o hyd ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ei atgyfnerthu cyn ei fabwysiadu.</td></tr>
<tr><td>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)<ul><li>Sicrhau bod gan y Cyngor allu ac adnoddau technegol digonol i gyflwyno a chefnogi ei gynlluniau trawsnewid heb effeithio ar ansawdd y gwasanaeth TGCh a ddarperir.</li><li>Manteisio ar y buddsoddiad mewn technoleg drwy sicrhau bod y dechnoleg yn cael ei defnyddio'n llawn, e.e. ehangu'r trefniadau gweithio symudol.</li><li>Adolygu'r trefniadau ar gyfer ariannu TGCh er mwyn sicrhau bod y seilwaith TGCh corfforaethol a adnewyddwyd ac a uwchraddiwyd yn ddiweddar yn parhau i fod yn addas at y diben yn y dyfodol.</li><li>Casglu a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â defnydd a chost trafodion ar draws y sianeli mynediad gwahanol fel mater o drefn:<ul><li>er mwyn pennu llinell sylfaen;</li><li>monitro defnydd a chost yn rheolaidd;</li><li>defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ei Strategaeth Mynediad</li></ul></li></ul></td><td>Cwblhawyd y gwaith maes ar gyfer astudiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru i drefniadau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Mae'r astudiaeth yn gofyn:<br>‘A yw dull y sefydliad o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant mewn modd cadarnhaol?’<br>Cyflwynir adroddiad ar ei chanfyddiadau a'i chasgliadau yn Llythyr yr Asesiad Gwella a gyhoeddir ym mis Tachwedd 2012.</td></tr>
</table>

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| Cwsmeriaid, y broses gwneud penderfyniadau a blaenoriaethu. | |
| • Marchnata'r sianeli mynediad cwsmeriaid gwahanol ar bob cyfle mewn ffordd ragweithiol i annog dinasyddion i ystyried sianeli mynediad cwsmeriaid cost is. | |
| **Hamdden**<br>• Dylai'r Cyngor sicrhau bod yr arbedion sy'n deillio o ailfodelu gwasanaethau hamdden gael eu cynnwys yn fersiwn nesaf y cynllun ariannol tymor canolig.<br>• Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr unigolion yn y tîm yn meddu ar gymwysterau addas, bod ganddynt ddigon o allu ac adnoddau i ddarparu swyddogaeth goruchwylio, monitro a herio briodol i'r partner. Dylai'r tîm fod yn weithredol cyn i'r contract newydd ddechrau.<br>• Dylai sicrhau bod trefniadau monitro digonol ar waith fel bod y bartneriaeth yn cyflawni ei nodau fel y'u nodir yn y cytundeb partneriaeth. | Byddwn yn monitro cynnydd y broses o ailfodelu'r gwasanaethau hamdden fel rhan o'n cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion y Cyngor. |